Gofal a chefnogaeth drwy salwch terfynol
Care and support through terminal illness

Marie Curie

Gwella mynediad i ofal lliniarol ar gyfer pobl â dementia, anableddau dysgu a phobl â chredoau crefyddol gwahanol neu'n ddi-grefydd

Prosiect a ariennir gan y Loteri Fawr yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg

Adroddiad cryno

Awst 2018

CRONFA LOTERI FAWR
BIG LOTTERY FUND

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

Cefndir

Ym mis Ionawr 2016, lansiodd Marie Curie brosiect a ariannwyd gan y Loteri Fawr – Cynnwys Cymunedau Amrywiol mewn Gofal Diwedd Oes. Nodau'r prosiect tair blynedd hwn oedd archwilio anghenion tri grŵp o bobl sy'n byw gyda salwch terfynol yng Nghaerdydd a'r Fro, ac i weithio i leihau'r rhwystrau i fynediad at ein gwasanaethau. Mae'r grwpiau yn y prosiect hwn yn seiliedig ar ymchwil gyfredol o ran bylchau a sialensiau mewn darpariaeth gofal lliniarol, a thrwy ymgynghori ag aelodau o'r grwpiau hyn yng Nghaerdydd a'r Fro. Y grwpiau oedd:

- **Pobl â dementia**
- **Pobl ag anableddau dysgu**
- Pobl â chredoau crefyddol gwahanol neu'n ddi**-grefydd.**

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau, argymhellion a chamau gweithredu'r prosiect. Hyd yma, mae'r prosiect wedi gweithredu ystod o newidiadau sy'n cael eu rhannu yn yr adroddiad hwn, yn ogystal ag argymhellion ehangach ar gyfer beth sydd angen ei wneud i wella mynediad.

Dros gyfnod y prosiect o 18 mis, ymgynghorwyd â 368 o bobl ar draws y tri grŵp i nodi'r rhwystrau i fynediad. Roedd y cyfranwyr yn cynnwys y rheini â phrofiad o fyw â dementia, anableddau dysgu a chredoau gwahanol, yn ogystal â gofalwyr, gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ac ymchwilwyr, o fewn Caerdydd a'r Fro. Ymhlith cefndiroedd ffydd a chredoau'r cyfranwyr oedd Cristnogol, Mwslimaidd, Bwdhaidd, Hindŵaidd, Iddewig, dyneiddiol a di-grefydd. Roedd pob un o'r cyfranwyr wedi clywed am Marie Curie cyn yr ymgynghoriad, a rhannodd nifer brofiadau ac argraffiadau positif am wasanaethau Marie Curie, mewn dau faes allweddol.

- **Y gefnogaeth y mae Marie Curie yn ei rhoi i deuluoedd a gofalwyr.** Mae pobl yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth emosiynol a'u cadw'n rhan o bethau a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt.

- **Gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.** Siaradodd nifer o bobl am dosturi a sgiliau cyfathrebu nyrsys a sut mae'r staff yn cefnogi dewisiadau cleifion drwy gynllunio gofal ymlaen llaw.

Rhwystrau

Mae gan y tri grŵp y bu'r prosiect yn gweithio gyda nhw amrywiaeth eang o anghenion ac ystod eang o sialensiau a rhwystrau i gael mynediad at wasanaethau gofal iechyd, gan gynnwys gofal lliniarol a gofal diwedd oes. Nodwyd rhai rhwystrau ar draws pob un o'r tri grŵp, a bydd yr adroddiad hwn yn dechrau gyda'r rhwystrau eang hynny cyn amlinellu'r rhwystrau sy'n benodol i bob grŵp unigol.

- **Roedd dealltwriaeth pobl o bwy allai gael mynediad i'n gwasanaethau yn gyfyngedig.** Mae llawer o bobl yn tybio ein bod yn cefnogi pobl â chanser yn unig, ac nid oedd y rhan fwyaf o gyfranwyr yn gwybod y gallai pobl â dementia gael mynediad i ofal lliniarol.

- Cafwyd cydnabyddiaeth fod **dealltwriaeth gyfyng o ofal lliniarol** yn ffactor wrth leihau mynediad pobl i wasanaethau. Dywedodd nifer o bobl wrthym eu bod yn dal i ystyried hosbisau fel llefydd y bydd pobl yn mynd i farw, yn hytrach na mynd i mewn i reoli eu symptomau a chael cefnogaeth i fyw gweddill eu bywyd.

- **Rhannodd gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol y diffyg gwybodaeth a’r dealltwriaeth ynglŷn â gofal lliniarol a'n gwasanaethau.** Gan mai gwasanaethau gofal cymdeithasol yw'r pwynt mynediad yn aml i bobl ag anableddau dysgu neu ddementia i gael gwahanol fathau o gymorth, mae hyn yn codi pryderon ynglŷn â sut gellir disgwyl iddynt gael gafael ar wasanaethau sydd eu hangen drwy weithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol.

- **Gallai camsyniadau ynglŷn â chymorth i farw gael effaith ar fynediad i ofal**. Ar hyn o bryd mae cymorth i farw yn anghyfreithlon yn y DU ac nid yw Marie Curie am geisio newid y gyfraith yn y maes hwn. Serch hynny, gall dealltwriaeth pobl o'r gwahaniaethau rhwng cymorth i farw a gofal diwedd oes, yn ogystal â'u safbwyntiau a'u dymuniadau personol ynglŷn â chymorth i farw, eu rhwystro rhag cael mynediad i’n gwasanaethau neu olygu eu bod yn teimlo’n siomedig os nad yw ein gwasanaethau yn bodloni eu disgwyliadau.

Rhwystrau ar gyfer pobl â dementia

- Gall **diffyg llwybr ffurfiol ar gyfer gofal lliniarol i bobl â dementia** ei gwneud hi’n anoddach cael mynediad i’r gwasanaethau hyn. Yn ogystal, dywedodd gofalwyr a phobl â dementia wrthym eu bod yn aml yn teimlo eu bod yn gorfod ymladd i gael mynediad i’r gefnogaeth sydd ei hangen, gan nad yw'r ystod o wasanaethau iechyd a gofal y maent yn cael mynediad iddynt wedi cysylltu â’i gilydd yn effeithiol.

- **Nid yw dementia wastad yn cael ei gydnabod fel cyflwr terfynol,** er ei fod yn gyflwr sy’n gwaethygu ac na ellir ei wella. O ganlyniad, dywedodd nifer o bobl â dementia wrthym nad yw gweithwyr meddygol proffesiynol yn siarad am gynllunio gofal ymlaen llaw neu ofal lliniarol gyda nhw.

- **Mae argaeledd cyfyngedig gwasanaethau gofal lliniarol yn ei gwneud yn anoddach i bobl â dementia gael mynediad i wasanaethau.** Oherwydd llai o gydnabyddiaeth o'r manteision y gall gofal lliniarol a gofal diwedd oes eu cael ar bobl sy'n cael eu heffeithio gan dementia, roedd pobl yn teimlo bod pobl â dementia yn cael eu hystyried yn llai o flaenoriaeth pan fo gwasanaethau gofal lliniarol yn brin. Clywsom hefyd y gall anghydfodau rhwng gwasanaethau iechyd a chymdeithasol ynglŷn â chyllid achosi oedi wrth gael mynediad i wasanaethau gofal lliniarol.

Rhwystrau ar gyfer pobl ag anableddau dysgu

- **Gall gofalwyr a gweithwyr proffesiynol geisio "diogelu" person ag anabledd dysgu rhag siarad am farwolaeth.** Dywedodd gweithwyr proffesiynol wrthym y gallai hyn olygu na fydd person ag anabledd dysgu yn cael gwybod ei fod/bod yn marw ac nad oes ganddynt y cyfle i wneud dewisiadau am eu gofal diwedd oes. Gall hyn ei gwneud hi'n anodd darparu'r gofal hwn. Mae gan bobl ag anabledd dysgu yr hawl i wybod am eu hiechyd eu hunain ac i gael rhywun i wrando arnynt a’u cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau ynglŷn â’u hiechyd a'u gofal.

- **Gall peidio â bodloni anghenion cyfathrebu** leihau mynediad person at wasanaethau os na roddir gwybodaeth iddynt mewn fformat sy'n eu helpu i ddeall yr hyn sydd ar gael. Dywedodd pobl ag anableddau dysgu wrthym fod diffyg gwybodaeth addas yn gallu arwain at ofn a gwrthod gwasanaeth.

- **Gall peidio â gwrando ar weithwyr proffesiynol nad ydynt yn ymwneud â gofal iechyd** olygu y gall pobl ag anableddau dysgu golli allan ar wasanaethau gofal lliniarol. Rydym yn

gwybod y gall gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol fod yn bwynt cyswllt allweddol i bobl ag anableddau dysgu ac ni ddylid tanbrisio eu rôl wrth nodi newidiadau yn iechyd person.

Rhwystrau ar gyfer pobl o gefndiroedd crefyddol a chefndiroedd di-grefydd

- **Mynegodd pobl o wahanol gefndiroedd crefyddol bryderon am allu staff gofal lliniarol i ddiwallu eu hanghenion ysbrydol a diwylliannol**. Pwysleisiwyd pwysigrwydd sicrhau bod staff yn gofyn i bobl beth yw eu hanghenion ysbrydol a diwylliannol a rhoi gwybod i gleifion sut y gellir diwallu'r anghenion hynny. Dywedwyd y byddai'n bwysig gallu derbyn cefnogaeth ysbrydol gan rywun sy'n rhannu ac yn deall eu credoau.

- Gall **rhwystrau iaith** gyfyngu mynediad pobl i wasanaethau gofal iechyd neu arwain at ofal o ansawdd is. Dywedodd pobl wrthym nad yw gwasanaethau cyfieithu ar y pryd, fel y llinell iaith, wastad yn cael eu defnyddio gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol, ac os yw gwasanaethau'n dibynnu ar deuluoedd yn hytrach na gwasanaethau cyfieithu, gall hyn roi mwy o bwysau ar deuluoedd ar adeg sydd eisoes yn anodd.

- Gall **diffyg cymorth bugeiliol di-grefydd** rwystro pobl ddi-grefydd rhag cael mynediad i wasanaethau. Dywedodd rhai cyfranwyr di-grefydd wrthym y byddent yn ofni efengylu neu wahaniaethu mewn cyfnod anodd yn eu bywydau, a’i fod yn bwysig iddynt allu cael cymorth gan rywun sy'n rhannu eu credoau a'u barn am y byd.

Argymhellion

Datblygwyd yr argymhellion canlynol drwy ddadansoddi'r adborth a dderbyniwyd a nodwyd themâu allweddol a meysydd i'w gwella. Mae'r argymhellion hyn o fewn tri maes thematig: ymgysylltu â'r gymuned, adeiladu gwasanaethau cynhwysol a chynyddu hyblygrwydd gwasanaethau.

Ymgysylltu â’r gymuned

1. Mae angen i weithgareddau codi ymwybyddiaeth fod yn rhan o wasanaethau craidd Marie Curie a'u cyflwyno ar lefel leol, gan wneud ymrwymiad hir dymor i ymgysylltu â'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

2. Dylai gwybodaeth mewn amrywiaeth o fformatau hygyrch fod ar gael yn eang mewn lleoliadau cymunedol, iechyd a gofal. Dylai gynnwys gwybodaeth a negeseuon allweddol sy'n taclo’r camdybiaethau cyffredin a all rwystro pobl rhag cael mynediad at wasanaethau.

3. Fel arbenigwyr cenedlaethol cydnabyddedig mewn gofal lliniarol a gofal diwedd oes, dylai Marie Curie weithio i addysgu gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd am ofal lliniarol a gofal diwedd oes.

Adeiladu Gwasanaethau Cynhwysol

4. Dylai gwasanaethau gofal lliniarol ganolbwyntio'n frwd ar gysylltu â chymunedau sy'n seiliedig ar gred ac archwilio ffyrdd newydd o ddarparu gofal ysbrydol, i hwyluso gofal bugeiliol sy'n cael ei ddarparu i gleifion o bob ffydd a’r rhai sydd heb ffydd ac yn galluogi dewis o ran sut darperir y gofal hwn.
5. Dylid cefnogi staff gofal lliniarol i ddatblygu dealltwriaeth o wahanol gredoau ac arferion ysbrydol a diwylliannol a chael sgyrsiau agored â phobl am yr hyn mae eu credoau yn ei olygu iddynt a sut y gellir cefnogi'r credoau hyn.

6. Dylid cefnogi staff gofal lliniarol i ddeall sut mae dementia ac anableddau dysgu yn effeithio ar berson a'u profiad gofal ac ystyried hyn wrth gynllunio a darparu gofal.

7. Dylai hosbisau ystyried hygyrchedd yr amgylchedd i wahanol grwpiau a sicrhau bod unrhyw waith adnewyddu yn y dyfodol yn ystyried anghenion hygyrchedd pawb.

Mwy o Wasanaethau Hyblyg

8. Dylai gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal lliniarol weithio'n agosach i sicrhau bod cleifion ag anghenion gofal lliniarol yn cael eu hadnabod yn well. Gall hyn gynnwys cymryd atgyfeiriadau gan weithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol allweddol i alluogi mynediad haws a chyflymach at ofal pan fydd ei angen.

9. Dylai Marie Curie weithio gyda chyrff sy'n cynllunio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i archwilio modelau gwasanaeth a fyddai'n galluogi ymyriadau cynharach, yn enwedig ar gyfer pobl â dementia, i sicrhau bod pobl yn gallu cael cefnogaeth dda am gyfnod hirach yn eu dewis le.

10. Dylai Marie Curie ystyried darparu gwasanaethau cynllunio gofal ymlaen llaw nad ydynt yn gysylltiedig â derbyn unrhyw wasanaethau eraill, i annog mwy o bobl i baratoi ar gyfer anghenion diwedd oes yn y dyfodol.

Newidiadau sydd wedi'u gwneud a newidiadau sydd ar y gweill yng Nghaerdydd a'r Fro

- **Mae Hosbis Marie Curie, Caerdydd a’r Fro yn gweithio tuag at ddod yn hosbis Deall Dementia.** Ers gwneud ein haddewid yn 2017 rydym wedi gweithio gyda grŵp o bobl â dementia a'u gofalwyr i nodi meysydd i'w gwella er mwyn sicrhau bod yr hosbis yn fwy hygyrch. Yn unol â'n cynllun Deall Dementia, rydym wedi gosod arwyddion darluniadol dwyieithog (Cymraeg/Saesneg) i nodi’r prif ystafelloedd fel toiledau a lolfeydd, ac mae'r prosiect yn cefnogi’r broses adnewyddu barhaus yn yr hosbis i sicrhau bod unrhyw newidiadau a wneir yn rhoi ystyriaeth i anghenion pobl â dementia. Mae'r prosiect wedi creu 82 o Gyfeillion Dementia o fewn Marie Curie yng Nghymru, ac mae Arwyr Dementia yn yr hobis bellach wedi ymrwymo i gyflwyno Cyfeillion Dementia i'r holl staff newydd.

- **Datblygwyd cwrs hyfforddi dementia newydd ar gyfer staff Marie Curie**. Rydym wedi gweithio gyda hyfforddwr dementia lleol i’w ddatblygu ac i sicrhau ei fod yn bodloni anghenion penodol ein staff sy'n darparu gofal i bobl â dementia ar ddiwedd eu hoes. Mae'r hyfforddiant wedi cynyddu hyder staff wrth gefnogi cleifion â dementia, a bydd staff allweddol ar draws ein gwasanaethau yng Nghymru yn dod yn hyfforddwyr fel y gellir parhau â'r cwrs hwn i staff newydd yn y dyfodol.

- **Rydym yn gweithio gyda phobl ag anableddau dysgu i ddatblygu fideos gwybodaeth am wasanaethau Marie Curie.** Bydd un yn sôn am dderbyn gofal gan Marie Curie a bydd y llall yn rhannu gwybodaeth i bobl ag anwyliaid sy'n derbyn gofal gan Marie Curie. Mae aelodau Rhoi Pobl yn Gyntaf Caerdydd, grŵp hunan-eiriolaeth anableddau dysgu lleol, yn cydweithio â ni i ddatblygu a chynhyrchu’r fideos. Bydd y fideos hyn ar gael ar ein gwefan i gefnogi pobl i ddeall mwy am ein gwasanaethau.

- **Mae'r prosiect wedi cefnogi datblygiad gwasanaeth gofal ysbrydol newydd yr hosbis**. Mae'r cydlynydd gofal ysbrydol yn arwain y gwasanaeth newydd hwn ac yn gweithredu fel cyswllt rhwng yr hosbis a chymunedau ffydd ac ysbrydol gwahanol ar draws Caerdydd a'r Fro i alluogi cleifion yr hosbis i gael cefnogaeth. Ers dechrau’r swydd, mae'r cydlynydd wedi datblygu gwasanaeth gofal ysbrydol newydd a chynhwysol ac mae'r gwaith hwn wedi cefnogi staff i ddeall a diwallu anghenion ysbrydol cleifion yn well. Ar hyn o bryd mae'n bwriadu recriwtio tîm amrywiol o wirfoddolwyr gofal ysbrydol, gan gynnwys pobl o wahanol gefndiroedd ffydd a chefndiroedd di-grefydd.

- **Rydym wedi cefnogi ein gwasanaethau i wella’r broses o gasglu data crefydd ac ethnigrwydd cleifion a chefnogi staff i sicrhau bod anghenion crefyddol a diwylliannol yn cael eu hystyried wrth ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.** Nid oedd staff yn teimlo'n hyderus wrth siarad â chleifion am eu hanghenion crefyddol, ysbrydol a diwylliannol, felly nid oeddent wastad yn gofyn amdanynt. Roedd bylchau hefyd yn y prosesau ar gyfer casglu'r data hwn. Drwy gyflwyno system ddigidol newydd ar gyfer cofnodion cleifion, daeth y broses o gasglu gwybodaeth am grefydd ac ethnigrwydd cleifion yn orfodol a rhoddodd rheolwr y prosiect a'r cydlynydd gofal ysbrydol hyfforddiant i staff ar sut i ofyn y cwestiynau hyn a sut i siarad â chleifion am eu hanghenion ysbrydol a diwylliannol. Mae'r hosbis bellach yn casglu'r wybodaeth hon ar gyfer dros 80% o'r holl gleifion, gyda'r gweddill yn dewis peidio ateb neu ddim yn gallu ateb. Rydym ni bellach yn gwybod bod pob claf yn cael cyfle i drafod yr anghenion hyn. Mae hosbisau eraill Marie Curie yn bwriadu ail-adrodd ein llwyddiant ac rydym yn edrych ar sut gallwn ddefnyddio'r model hwn i wella’r broses o gasglu data am y nodweddion gwarchodedig eraill.

- **Mae'r prosiect wedi canolbwyntio ar ddarparu cyfleoedd ymgysylltu â'r gymuned a chyfleoedd addysg ar draws y tri grŵp**. Dywedodd pobl wrthym pa mor bwysig oedd hi bod Marie Curie yn gweithio i wella dealltwriaeth pobl o wasanaethau gofal lliniarol a'u mynediad at wasanaethau gofal lliniarol. Mae rheolwr y prosiect wedi gweithio gyda'n timau nyrsio ac iechyd perthynol i gynnal digwyddiadau addysg a chodi ymwybyddiaeth i amrywiaeth o gynulleidfaoedd, gan gynnwys gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, arweinwyr cymunedol a'r cyhoedd yn gyffredinol mewn lleoliadau fel canolfannau cymunedol neu addoldai. Mae'r prosiect wedi cyrraedd dros 2000 o bobl yn uniongyrchol drwy ddigwyddiadau wyneb yn wyneb. Er y gall siarad am ofal lliniarol a marwolaeth fod yn anodd, gwelwyd bod y digwyddiadau hyn wedi'u croesawu unwaith i rwystr cychwynnol y pwnc gael ei ddatrys. Mae pobl yn gwerthfawrogi'r cyfle i ddysgu am wasanaethau newydd a gofyn cwestiynau. Gellir cyflwyno negeseuon allweddol, gan gynnwys bod Marie Curie yn cefnogi pobl ag unrhyw salwch terfynol a bod gennym ystod eang o wasanaethau yn y gymuned yn ogystal â'n gofal hosbis. Drwy fod yn bresennol yn y gymuned, mae ein rheolwr prosiect wedi gallu cyfeirio pobl a sefydliadau at wasanaethau Marie Curie neu at wasanaethau lleol eraill. Mae sesiynau addysg gydag arweinwyr cymunedol neu weithwyr proffesiynol hefyd wedi derbyn adborth positif ac wedi cael effaith ar ddealltwriaeth pobl o wasanaethau Marie Curie, a chefnogi pobl i deimlo'n well ynglŷn â chefnogi pobl eraill sy'n cael eu heffeithio gan salwch terfynol. Mae'r gwaith hwn wedi tynnu sylw at rôl addysg a chymryd rhan yn y gymuned wrth helpu mwy o bobl i gael mynediad i'n gwasanaethau a hyrwyddo ein gwaith fel elusen.

Casgliadau

Mae'r prosiect hwn wedi gwella ein dealltwriaeth o'r rhwystrau wrth gael mynediad i wasanaethau gofal lliniarol ar gyfer pobl â dementia, anableddau dysgu a phobl â chredoau crefyddol gwahanol neu'n ddi-grefydd. Mae wedi caniatáu i ni weithio'n uniongyrchol gyda'r grwpiau hyn i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed wrth i ni gynllunio, datblygu a darparu ein gwasanaethau, ac mae eu hadborth wedi ein galluogi i wneud newidiadau i gynyddu mynediad ac i wella pa mor gynhwysol a hygyrch yw'n gwasanaethau. Bydd y casgliadau a'r argymhellion hyn yn parhau i ddylanwadu ar Marie Curie y tu hwnt i'r prosiect, yn unol â'n hamcanion strategol presennol i gyrraedd mwy o bobl yr effeithir arnynt gan salwch terfynol ac i wella'r ffordd y darperir gofal i bobl sy'n dioddef o salwch terfynol yn y DU. Rydym hefyd yn gobeithio y gall y wybodaeth a geir yn yr adroddiad hwn fod o fudd i ddarparwyr gwasanaethau eraill o fewn y maes gofal lliniarol a'r sector iechyd a gofal ehangach, wrth gefnogi mynediad teg i wasanaethau gofal lliniarol i bawb.

Cydnabyddiaeth

Mae tîm y prosiect yn Marie Curie am ddiolch i bawb sydd wedi cefnogi a chyfrannu at y prosiect hwn. Diolch i'n holl gydweithwyr yn Marie Curie am eu cefnogaeth drwy gydol y prosiect. Yn ogystal, hoffwn ddiolch i'r holl sefydliadau fu'n rhan o'r broses, gan gynnwys:

Cymdeithas Menywod Mwslimaidd Ahmadiyya
Cymdeithas Clefyd Alzheimer
Eglwys Ddiwygiedig Unedig Beulah, Rhiwbeina
Cyngor Bwdhaidd Cymru
Fforwm Caerdydd 50+
Rhoi Pobl yn Gyntaf Caerdydd
Ffederasiwn Rhieni Caerdydd
Yr Eglwys yng Nghymru, Esgobaeth Llandaf
Prosiect Ymgysylltu a Grymuso Dementia (DEEP)
Dimensions
Diverse Cymru
Dyneiddwyr y DU
Cyngor Rhyng-ffydd Cymru
Anabledd Dysgu Cymru
The Mentor Ring
Mirus
Canolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y GIG
Cyngor Cynrychiolwyr Iddewig De Cymru
Ymddiriedolaeth GIG Felindre
Vision 21

I gloi, diolch i'r holl unigolion a fu mor barod i rannu eu barn a'u profiadau gyda ni i gefnogi gofal gwell i eraill nawr ac yn y dyfodol.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

Monica Reardon
Marie Curie
Hosbis Caerdydd a'r Fro
Bridgeman Road
Penarth CF63 3YR
Ffôn: 029 2042 6025
E-bost: monica.reardon@mariecurie.org.uk
Dilynwch ni ar Twitter @mariecuriecymru

We're here for people living with any terminal illness, and their families. We offer expert care, guidance and support to help them get the most from the time they have left.

mariecurie.org.uk

Charity reg no. 207994 (England & Wales), SC038731 (Scotland) A003

Marie Curie

Care and support through terminal illness